PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 15 TACHWEDD 2023, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Dr Stephen Atherton; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; yr Athro Andrew Evans; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor Tros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Dr Alex Mangold; yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Alistair Shepherd; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Miss Anna Simpkins, Swyddog Materion Academaidd UMAber; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; yr Athro Simon Cox; Dr Thomas Jansen; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Anoush Simon; Dr Steve Thompson; a Dr Lucy Trotter. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Trevor Pearce, Cofrestrydd Academaidd Tros Dro; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Kim Knowles; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

## 15. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

Bore Strategaeth y Senedd

Cyn y cyfarfod ffurfiol roedd y Senedd wedi cynnal Bore Strategaeth llwyddiannus. Roddwyd copïau o'r holl gyflwyniadau ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

## 16. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 17. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023 (SEN2223-017).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**18. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2324-018).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd.

1. Marchnata a Denu Myfyrwyr: Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr ar ddiwrnod encil y Senedd, fore’r 15 Tachwedd, a daeth y gweithredu i ben.

2. Ffioedd Myfyrwyr: byddai canllawiau wedi'u diweddaru ynglŷn â dyledion yn cael eu darparu i fyfyrwyr ar-lein, a daeth y gweithredu i ben.

**19. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2324-019)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad amlygu; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Byddai cyllideb ddiwygiedig canol-blwyddyn yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2023. Roedd y Brifysgol ar y trywydd iawn i nodi arbedion yn ystod y flwyddyn, a fyddai'n mynd law yn llaw ag ymdrech o'r newydd i ddenu mwy o fyfyrwyr.

3. Gŵyl Ymchwil lwyddiannus 2023: Hawlio Heddwch, a oedd wedi cynnwys amrywiaeth helaeth o weithgareddau yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd.

4. Parhad yn y cydweithio rhwng y Brifysgol a Bargen Twf Canolbarth Cymru.

**20. YMCHWIL AC ARLOESI**

**20.1 Adroddiad Blynyddol Moeseg Ymchwil**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2324-020).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a'r Panel Moeseg Ymchwil. Roedd hefyd yn rhoi braslun cryno o holl weithgareddau moeseg ymchwil blwyddyn academaidd 2022/23.

2. Yn ystod 2022/23 cwblhawyd dau ymchwiliad i honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil (yn dyddio o sesiwn 2021/22) yn unol â'r Polisi ar Gamymddygiad mewn Ymchwil.

3. Datblygiad modiwlau ar-lein newydd mewn Moeseg ac Uniondeb Ymchwil i'r holl staff a'r myfyrwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil.

**20.2 Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2324-021).

NODWYD

1. Paratowyd y Datganiad ar gyfer cyhoeddiad blynyddol yn unol â'r Concordat i Hyrwyddo Uniondeb Ymchwil. Roedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 ac yn crynhoi statws y Brifysgol yng nghyswllt disgwyliadau'r Concordat. Roedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd, y gweithgareddau a gyflawnwyd a'r fframwaith sydd yn ei le i feithrin diwylliant o uniondeb ymchwil. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o ymchwiliadau a wnaed gan y Brifysgol ynglŷn â chamymddygiad mewn ymchwil.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol. [**GWEITHREDU:** yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)]

**21. Y BWRDD ACADEMAIDD**

**21.1 Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2324-022).

NODWYD

2. Cafodd papur cyfarwyddyd ynglŷn â Chadw Myfyrwyr ei ddosbarthu i adrannau ym mis Medi, a byddai'r Bwrdd Academaidd yn parhau i gadw golwg fanwl ar niferoedd y myfyrwyr sy'n ymadael. Roedd astudiaeth achos a gynhaliwyd trwy'r prosiect Dadansoddeg Dysgu wedi pwysleisio effeithiolrwydd ymyrraeth amserol.

3. Byddai'r Bwrdd Academaidd yn cadw golwg gyson ar ddarpariaeth uchel ei broffil a oedd yn cynnwys gofynion achredu beirniadol. Byddai hyn yn cynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon, Gofal Iechyd, a Milfeddygaeth.

**21.2 Datganiad o Sicrwydd Ansawdd**

DERBYNIWYD

1. Datganiad Blynyddol gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2324-23)

NODWYD

2. Diben y Datganiad Sicrwydd Blynyddol oedd rhoi'r dystiolaeth briodol i gorff llywodraethu'r Brifysgol, sef y Cyngor, fel y gallai'r Cyngor fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau'n ymwneud â sicrwydd ansawdd. Roedd gofyn i'r Cyngor, sef y Corff Llywodraethu, gyflwyno adroddiad i CCAUC bob blwyddyn. Fodd bynnag, roedd sicrhau a gwella ansawdd dysgu ac addysgu yn digwydd trwy gydol y flwyddyn academaidd ac nid yn cael ei gyfyngu i brosesau blynyddol. Câi'r adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

3. Byddai angen cadw golwg fanwl wrth reoli risg o safbwynt sicrwydd ansawdd, yn enwedig yng nghyswllt effaith gweithredu diwydiannol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Datganiad o Sicrwydd Ansawdd, yn amodol ar fân gywiriadau, a'i gyfeirio i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

5. Diolch yn ffurfiol i'r Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) am baratoi'r Datganiad Blynyddol.

**21.3 Adroddiadau Arholwyr Allanol**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2324-024)

NODWYD

2. Roedd Arholwyr Allanol wedi cadarnhau eu bodlonrwydd cyffredinol â safonau academaidd y dyfarniadau, a bod perfformiad y myfyrwyr yn cyfateb i safonau rhaglenni tebyg mewn Sefydliadau Addysg Uwch eraill yn y DU yr oeddent yn gyfarwydd â hwy. Roeddent hefyd yn fodlon bod y Byrddau Arholi wedi'u cynnal yn deg ac yn unol â Chonfensiynau Arholi'r Brifysgol. Yn achos manylebau rhaglenni, roedd Arholwyr Allanol wedi cadarnhau bod cynnwys, fframwaith a chanlyniadau'r dysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn briodol i'r rhai a nodwyd yn y meincnodau pwnc cenedlaethol, a bod ystod y dulliau asesu a ddefnyddiwyd yn effeithiol wrth fesur canlyniadau dysgu'r cynlluniau astudio.

3. Er nad oedd ymarferoldeb unrhyw newidiadau i amseru cynnal y byrddau arholi yn eglur hyd yn hyn, byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) yn ymchwilio ac yn ysgrifennu at yr Arholwyr Allanol dan sylw.

4. Byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (DAPM) yn ysgrifennu at ddau Arholwr Allanol a oedd wedi mynegi pryderon ynglŷn ag effaith y Boicot Marcio ac Asesu.

PENDERFYNWYD

5. Croesawu’r sicrwydd o ansawdd a safonau gan Arholwyr Allanol.

6. Gofyn am ddiweddariadau yn achos yr ymatebion i bryderon penodol a godwyd gan Arholwyr Allanol ynglŷn â byrddau arholi a'r Boicot Marcio ac Asesu. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr]

**22. CYTUNDEB PERTHYNAS AG UNDEB Y MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2324-025).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu’n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan Swyddogion Undeb y Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi. Roedd y Cytundeb Perthynas am 2023–24 wedi'i adolygu gan Ysgrifennydd y Brifysgol, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a Phrif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr. Ar wahân i ddiweddaru'r llofnodion, ni chynigiwyd newidiadau i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

2. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol fel y mae am y flwyddyn academaidd i ddod. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

**23. GRADDAU ER ANRHYDEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2324-026).

NODWYD

1. Ar 31 Hydref 2023, cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth. Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhestr fer arfaethedig, a gofynnwyd i'r aelodau barchu natur gyfrinachol y papur. Ni fyddai'r Brifysgol yn gohebu â'r rhai sy'n cael eu hargymell am Radd er Anrhydedd tan y bydd eu henwau wedi cael sêl bendith y Cyngor. Ar ben hynny, ni fyddai enwau'r rhai y cyflwynir Gradd er Anrhydedd iddynt yn cael cyhoeddusrwydd tan haf 2024.

**PENDERFYNWYD**

2. Cyfeirio'r enwebiadau am Raddau er Anrhydedd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

**24. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

**1**. Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2324-027)

2. Grantiau Ymchwil (SEN2324-028)

3. Y Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2324-013).

NODWYD

4. Croesawu'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau am y Dystysgrif Sgiliau Iaith.

5. Croesawu’r grantiau ymchwil sy’n dal i gael eu hennill ar ôl blwyddyn lwyddiannus yn 2022/23.

**25. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad (SEN2324-030):

1. Y Bwrdd Academaidd (1 Tachwedd 2023)

NODWYD

2. Yr adroddiad a ddaeth gan y Bwrdd Academaidd.

**26. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

<u>Ffarwelio</u>

Hwn fu cyfarfod olaf y Senedd i’r Athro Elizabeth Treasure cyn iddi ymddeol o fod yn Is-Ganghellor ddiwedd mis Rhagfyr 2023. Mynegodd y Senedd ddiolch i'r Athro Treasure am ei harweiniad trwy gyfnod heriol, pan oedd y Brifysgol wedi cryfhau ei safle a'i henw da, a dymunodd y gorau iddi ar ei hymddeoliad.